**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3151/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Medi 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ddileu Curaçao, Denmarc, Gwlad yr Iâ a Slovacia o'r rhestr o'r gwledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu eithriadau i'r gofynion ynysu ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon elît ac sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig ar gyfer archwiliadau meddygol (yn ogystal ag unrhyw un sy'n teithio gyda nhw i ddarparu cymorth angenrheidiol), ac ar gyfer y rhai sydd newydd lofnodi, i chwarae mewn cystadlaethau. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau yn darparu eithriadau newydd ar gyfer athletwyr elît, hyfforddwyr a phobl eraill sy'n darparu cymorth pan fyddant yn dychwelyd i Gymru ar ôl bod mewn gwlad sydd heb ei heithrio, ar gyfer rhaglen hyfforddi elît. Mae nifer o ddigwyddiadau chwaraeon wedi'u hychwanegu at Atodlen 4.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd